**Datganiad gan Fudiadau Menywod Cymru yn ymateb i Gyhoeddi Ymgynghoriad ar ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd**

**Oddi dan embargo hyd nes 1600 Gorffennaf y 3ydd 2018**

1. Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Chwarae Teg, Women Connect First a Chymorth i Ferched Cymru i gyd yn croesawu cychwyn yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Rydyn ni'n cydnabod yr angen i ddiwygio'r ffordd y gall pobl draws newid eu tystysgrifau geni, i'w gwneud yn broses fwy hygyrch sy'n parchu pobl.

2. Rydyn ni'n cefnogi menywod traws: mae ein mudiadau a'n gwaith yn gwbl gynhwysol o fenywod traws. Yn ein **Maniffesto ar y cyd dros Gydraddoldeb ar gyfer Menywod a Merched**, fe wnaethon ni alw am fwy o gydnabyddiaeth ar gyfer y mathau lluosog o wahaniaethu a chamdriniaeth sy'n wynebu menywod traws fel menywod. Fe ddylai gofodau ar gyfer menywod yn unig fod yn agored i bob menyw, gan gynnwys menywod traws, ac mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch menywod, gan gynnwys diogelwch menywod traws, yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, mewn gwasanaethau ac yn y gymuned.

3. Rydyn ni'n ffieiddio at y bwlio a'r trawsffobia sy'n wynebu menywod traws. Nid oes lle iddo yn ein cymdeithas. Hawliau dynol sy'n rhyngblethu yw hawliau pobl draws a hawliau menywod. Safwn yn unedig yn erbyn pob math o gasineb at fenywod a thrais gan ddynion.

4. Rydyn ni'n gwybod hefyd bod y frwydr dros gydraddoldeb i bobl draws yn ehangach na dim ond cydnabod eu rhywedd. Mae ein **Maniffesto** yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer Cymru lle caiff menywod a merched eu trin yn gydradd, ac mae'n rhaid i hynny gynnwys sicrhau bod menywod traws yn cael eu cynrychioli'n well mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol, bod gan bobl draws well mynediad at ofal iechyd yma yng Nghymru, ac y gall pobl draws gael mynediad at y cymorth arbenigol y gallai fod ei angen arnynt er mwyn gwella ar ôl camdriniaeth. Rydyn ni'n cydnabod hefyd y gall pobl anneuaidd a dynion traws brofi casineb at fenywod a wynebu gorthrwm parhaus sy'n seiliedig ar gasineb at fenywod. Credwn fod rhoi diwedd ar drais a gwahaniaethu yn erbyn menywod yn ganolog i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob person traws.

5. Cefnogwn yr angen i ymgynghori'n ystyrlon ar y diwygiadau sy'n cael eu cynnig gyda'r holl grwpiau yr effeithir arnynt, a bydd y sgyrsiau hyn yn sail i'n hymatebion ni i'r ymgynghoriad. Credwn y dylid cynnal y drafodaeth yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n parchu pobl. Byddwn yn cymryd rhan mewn gwaith ymgynghori ar y diwygiadau sy'n cael eu cynnig gyda menywod yng Nghymru, gan gynnwys menywod traws, ac anogwn fenywod yng Nghymru a'n haelodau i gyfrannu at ein hymateb.

ADDRESS
WEN Wales,
c/o Chwarae Teg,
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff CF24 5JW

CONTACT
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

INFO
Charity Number: 1145706
Company Number: 07891533

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Statement from Welsh Women's Organisations in response to the Announcement by UK government to the Consultation on the reform of the Gender Recognition Act**

**Embargoed until 1600 July 3rd 2018**

1. Women's Equality Network (WEN) Wales, Chwarae Teg, Women Connect First and Welsh Women's Aid all welcome the opening of the consultation on the reform of the Gender Recognition Act. We recognise the need to reform the way trans people can change their birth certificates, to make it a more accessible and respectful process.

2. We support trans women: our organisations and our work are fully inclusive of trans women. In our recent joint **Manifesto for Equality for Women and Girls**, we called for greater recognition of the multiple forms of discrimination and abuse experienced by trans women as women. Women-only spaces should be open to all women, including trans women, and women's safety, including trans women's safety, within the criminal justice system, in services and in the community must be prioritised.

3. We abhor the bullying and transphobia that trans women face which has no place in our society. Trans people's rights and women's rights are human rights which intersect, and we stand united against all forms of misogyny and male violence.

4. We know that the struggles for equality for trans people extend beyond gender recognition. Our **Manifesto** contains priorities for a Wales where all women and girls are treated equally, which must include ensuring that trans women are better represented in public and political life, that trans people have improved access to healthcare here in Wales, and that trans people can access the specialised support they may need to recover from abuse. We also recognise that non-binary people and trans men can have experiences of misogyny and can face continuing oppressions that are based on misogyny. We believe that ending violence and discrimination against women is integral to achieving equality for all trans people.

5. We support the need for meaningful consultation on the proposed reforms with all affected groups, and these conversations will inform our responses to the consultation. We believe that discussion and debate should be carried out in a safe and respectful way. We will be taking part in consultation on the proposed reforms with women in Wales, including with trans women, and encourage women in Wales and our members to help inform our response.

ADDRESS
WEN Wales,
c/o Chwarae Teg,
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff CF24 5JW

CONTACT
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

INFO
Charity Number: 1145706
Company Number: 07891533

Llywodraeth Cymru
Welsh Government